Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 8fed o Chwefror 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Rob Jones, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby.

Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Geraint Price

Cof 273 / Chwef / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 274 / Chwef / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/34987 Caniatâd i adnewyddu arwyddion ar ddrychiad blaen siop sy'n bodoli yn 109, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/34997 Cais adeilad rhestredig. Altrad i'r cynlluniau a gymeradwywyd yn wreiddiol, i leihau maint yr estyniad cefn arfaethedig a chynlluniau diwygiedig yn Waterloo Villas, Stryd y Bont.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod y rheoliadau ar gyfer adeiladau rhestredig yn cael eu bodloni a'i fod yn cydymffurfio ag adroddiad YAD.

E/35063 Cais adeilad rhestredig. Canopi siop newydd ac arwydd yn hongian (cais ôl-weithredol) yn 60-60A, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

Cof 275 / Chwef / 17 Doedd dim Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

Cof 276 / Chwef / 17 Doedd dim Materion eraill yn ymwneud â Chynllunio

Cof 277 / Chwef / 17 Doedd dim Gohebiaeth

Cof 278 / Chwef / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. E-bost gan y Cyng. Edward Thomas mewn perthynas â'r ddamwain ar gyffordd cylchfan yr A40 a'r A483. Nodwyd.
2. Ynglŷn â Llwybr Troed 69/1 Glynceirch. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu at CSG, i ddweud bod y Cyngor Tref yn siomedig nad

oedd y Cyngor Sir wedi cynnal a chadw'r llwybr troed pwysig hwn yn y dref, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Carol Watts. Roedd pawb o blaid.

Cof 279 / Chwef / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Rhoddodd y Swyddog Technegol fanylion yr anheddau y mae'r Cyngor yn dymuno rhoi rhodd iddynt tuag at gost y trydan a ddefnyddiwyd gan y motiffau goleuadau Nadolig a oedd ynghlwm wrth yr adeiladau.

Cytunwyd ar roddion o £20 yr un i:
Mathew Corner, Prospect House.
Angela White, Stryd Caerfyrddin.
Geraint Price, Stryd Rhosmaen.
Mrs Dawn Nulty ,68 Heol Newydd.
Fflat uwchlaw 99 Stryd Rhosmaen.

Dangosodd y Clerc ddiagram o faner arfaethedig y Cyngor Tref. Cytunwyd i sefydlu Is-grŵp i ystyried y dimensiynau posib a defnyddiau addas, ac i argymell p'un ai dylai'r Cyngor brynu baner o'r fath. Roedd yr Is-grŵp yn cynnwys y Cyng. Owen James, y Cyng. Colin Jenkins a'r Cyng. Dawn Wallace.

Cof 280 / Chwef / 17 Eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedodd y Cyng. Robert Jones y byddai'r teulu o Syria'n cael eu gwahodd i'r Twmpath dawns ar Fawrth y 1af. Byddai casgliad er budd elusennau lleol yn cael ei wneud yn y cyngerdd ar ddechrau wythnos Dathlu Gŵyl Ddewi.

Rhoddwyd caniatâd i'r Maer i fynd â 'hen' gadwyn y Maer i'r Cinio Rotari ar nos Wener y 24ain o Chwefror 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.